# LC1495

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## The Firefighters’ Pension (Wales) Scheme (Amendment) Order 2007

Mae’r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynllun pensiwn diffoddwyr tân, fel yr amlinellir yn Atodlen 2 o’r gorchymyn, The Firemen’s Pension Scheme Order 1992 ac i’r graddau y mae’n effeithio ar Gymru, i barhau mewn grym ar gyfer aelodau presennol yn amodol ar yr addasiadau a bennir yn y Gorchymyn. Disgrifir y diwygiadau manwl yn y Nodyn Esboniadol.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

Mae’r cyfeiriadau ym mharagraffau (5)(j)-(l) o erthygl 1 yn anghywir. Mae’r holl rifau a nodir un yn llai na’r rhif sy’n cyfateb i’r disgrifiad sy’n dilyn. Yn yr un modd, dylai’r cyfeiriadau at baragraff 50 a 61 yn erthygl 3(1) gyfeirio at 51 a 62. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae erthygl 4 ac Atodlen 2 yn gymwys fel bod darpariaethau’r Cynllun a ddisodlwyd gan ddarpariaethau cyfatebol yn y gorchymyn, The Firefighters Compensation Scheme (Wales) Order 2007 yn peidio â chael effaith. Mae erthygl 2(2) ac atodlen 2 o’r Gorchymyn hwnnw yn cynnwys darpariaethau tebyg. Fodd bynnag, mae’r tablau o ddarpariaethau cyfatebol a nodir yn y ddwy Atodlen yn wahanol. Ymddengys fod y ddwy yn gywir ond yn anghyflawn. Credir y dylai’r ddwy Atodlen, os y’u cynlluniwyd i gael yr un effaith, fod yn union yr un peth. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mân wallau drafftio neu deipograffyddol yw’r rhain sy’n briodol i’w cywiro drwy Femorandwm Cywiriadau.

Defnyddiwyd iaith ryw-benodol drwy’r Gorchymyn cyfan er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â’r Cynllun sy’n cael ei ddiwygio. Drafftiwyd y cynllun pensiwn newydd a gyflwynir ar hyn o bryd gan orchymyn ar wahân heb ddefnyddio iaith ryw-benodol, a’r cynllun hwnnw fydd yn gymwys i’r holl newydd-ddyfodiaid tra y bydd aelodau’r cynllun hwn yn gostwng yn raddol. [Rheol Sefydlog 11.7 (vii)]

Er bod Gorchymyn Diwygio 2006 (o hyd tebyg) wedi’i wneud yn ddwyieithog, daeth y Gweinidog i’r casgliad na fyddai’n rhesymol ymarferol gwneud y Gorchymyn hwn yn Gymraeg yn ogystal â’n Saesneg oherwydd ei hyd a’i natur dechnegol. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Sylwadau

Ymhlith y pwerau galluogi a enwir, ceir "section 26 of the Fire Services Act 1947, section 12 of the Superannuation Act 1972 as applied by section 16(3) of that Act". Ni chafodd y pwerau hynny eu trosglwyddo’n uniongyrchol i’r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae’r gorchymyn, The Firefighters’ Pension (Wales) Scheme (Amendment) Order 2006 yn darparu, at ddiben y Cynllun (ac nid y Gorchymyn yn unig), y dylai is-adrannau (1) i (5) o adran 26 gael effaith yn y fath fodd fel bod pob cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael ei ddisodli â chyfeiriadau at y Cynulliad Cenedlaethol. Mae’r pwerau hynny yn eu tro, yn rhinwedd adran 16(3), yn galluogi’r Cynulliad i ddibynnu ar adran 12.

Yn yr LA5(5) newydd, ceir (a), ond nid (b). Ymddengys o’r testun y dylid mewnosod (b) ar ôl yr hanner colon. Efallai mai problem gyda’r templed yw hwn a bod modd ei gywiro wrth gyhoeddi’r Gorchymyn.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mawrth 2007